CYFRES A3

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd yn yr Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Astudiaeth 1 Pedr - Ei alwad.

DARLLENWCH
Mathew 4: 17-22
Ioan 1: 35-42

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 4: 19

Awgrymiadau ar gyfer darllen pellach
1 Pedr 1: 15, 2: 9 a 10; 5: 10

Brawd Simon Pedr a ddaeth ag ef gyntaf at yr Arglwydd Iesu.

Mae'r hanes am hyn yn yr ail ddarlleniad o'r Beibl.

Darllenwch yr adnodau, yna atebwch y cwestiynau hyn:

C **Pa deitl a ddefnyddiodd Ioan am Iesu pan welodd ef yn mynd heibio?**

C **Pa deitl a ddefnyddiodd y ddau ddisgybl pan oedden nhw'n siarad â Iesu?**

C **Pa un o'r teitlau hyn sy'n cyfeirio at Iesu fel Athro?**

C **Pa deitl sy'n cyfeirio at ei ddioddef a'i farw dros ein pechodau?**

C **Rydyn ni'n gwybod enw UN o ddau ddisgybl Ioan yn y stori. Pwy oedd e?**

C **Ym mha ffordd roedd e'n perthyn i Simon Pedr?**

6

C **Dyma chwe ffordd y medr y frawddeg orffen.**
Atebwch CYWIR neu ANGHYWIR ar ôl pob un:-

Ar ôl treulio diwrnod gyda'r Arglwydd Iesu, mae Andreas...

- .. yn mynd adre yn drist ac wedi'i siomi. .....
- ... yn sicr bod Iesu yr Un y mae'n ddweud ydyw. .....
- ... yn penderfynu peidio â dweud dim wrth neb. .....
- ... yn dweud wrth ei frawd am ei brofiad. .....
- ... yn gwrthod credu dim a ddywedodd Iesu wrtho. .....
- ... yn dod â'i frawd at Iesu. .....

6

Rhaid inni gofio bod Duw yn aml yn defnyddio pobl gyffredin er mwyn dod â phobl i'w adnabod Ef fel ein Harglwydd a'n Gwaredwr. Yn yr hanes hwn, Andreas sy'n cael ei ddefnyddio i ddod â Simon Pedr at Iesu Grist. Efallai bod rhyw ffrind yn eich bywyd chi sy'n eich tynnu chi ato Ef! Neu efallai eich bod chi, fel Cristion ifanc, yn medru bod yn gyswllt i ddod â rhywun at y Gwaredwr!

C **Ysgrifennwch y geiriau a ddywedodd Andreas wrth ei frawd, Simon Pedr, pan welodd ef.** 1

C **Pa air y medrwn ni ei ddefnyddio yn lle 'Meseia'?** 1

Mae'r ddau air yn golygu yn union yr un peth! TEITLAU ydyn nhw am yr Arglwydd Iesu. Maen nhw'n golygu mai Iesu yw yr un sydd wedi ei ENEINIO - y person yr oedd Duw wedi ei addo, drwy Ei broffwydi, i ddod i'r byd ar gyfer y gwaith arbennig o fod yn WAREDWR i ni.

C **Ysgrifennwch yr hyn a ddywedodd Iesu wrth Simon pan ddaeth at Iesu gydag Andreas.** 2

Mae'r geiriau hyn yn dweud dau beth wrthon ni:-

1. Mae'r Arglwydd Iesu yn gwybod yn barod pwy yw e.
2. Roedd gan yr Arglwydd Iesu gynlluniau ar gyfer ei fywyd. (Mae'r ffaith iddo roi enw newydd iddo yn profi hyn!) Ddylem ni ddim anghofio ei fod ef yn adnabod pob un ohonon ni, a bod ganddo Ef waith ar ein cyfer, os rhoddwn ein bywyd Iddo Ef.

C **Cwblhewch y blychau isod i ddangos gwahanol enwau Pedr a'u hystyron.** 2

C__ ff__ __ = **__ed__** = **'C __ __ __G'** **NEU** **'G__ RR__ G'**

Efallai mai wythnosau'n ddiweddarach y clywodd Pedr ac Andreas Iesu'n galw arnyn nhw pan oedden nhw'n pysgota.

C **Ysgrifennwch beth a ddywedodd Iesu wrthynt y diwrnod hwnnw fel y dywedir yn yr Adnod Allweddol.** 1

C **Beth oedd eu hymateb i alwad Iesu?** 1

Canlyniad yr ymateb oedd newid bywydau'n llwyr! Fe fyddai Pedr, yn y blynyddoedd dilynol, yn cael llawer o brofiadau 'lan' a 'lawr' yn ei fywyd, ond wnaeth e erioed ddyfaru rhoi ei fywyd i'r Arglwydd Iesu. Wnewch chithau ddim chwaith!

Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 14: 22-33

Astudiaeth 2 Pedr - Ei sialens

Awgrymiadau ar gyfer darllen pellach
Salm 34: 6-8 Rhufeiniaid 8: 28 Jwdas 24 a 25

Lleoliad yr astudiaeth hon yw llyn Galilea, yr union fan lle dysgodd Pedr fod yn bysgotwr. Yn y darlleniad hwn o'r Beibl rydyn ni'n gweld ei fod wedi dysgu gwersi pwysig eraill yno hefyd.

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 14: 33

CHWILOTAIR

Yn y chwilotair, rhowch gylch am y geiriau cywir ar ôl eu hysgrifennu yn y lle priodol. (Mae'r atebion i'w gweld yn mynd i bob cyfeiriad!) Nid yw "ff" ac "dd" yn cael eu trin fel un llythyren yn y pos hwn.

D	W	U	R	D	F	C	P	L	B
P	I	G	O	L	F	A	R	O	L
R	T	S	M	T	Y	R	D	U	A
A	C	U	G	U	D	V	I	N	N
M	H	D	F	Y	D	I	D	G	D
S	E	D	O	M	B	N	E	E	P
I	S	O	R	S	O	L	S	R	O
U	A	N	N	O	T	G	I	S	R
O	I	D	D	E	W	G	N	O	S
C	E	R	D	D	E	D	O	L	N

- Fe anfonodd Iesu y dynion hyn i ffwrdd mewn cwch. .....
- Roedd Iesu ar ei ben ei hun yr adeg hon o'r diwrnod .....
- Roedd y rhain yn peri helbul i'r cwch. .....
- Fe welson nhw Iesu yn gwneud hyn ar y môr. .....
- Y gorchymyn a roddodd Iesu i Pedr. .....
- Fe aeth Iesu i'r mynydd i wneud hyn .....
- Fe ddechreuodd Pedr wneud hyn yn y dŵr .....
- Mae'r Arglwydd yn ceryddu Pedr am nad oedd ganddo ddigon o hyn. .....

8



Yn y Darlleniad o'r Beibl, mae yr Arglwydd Iesu yn gwneud nifer o bethau na fedr pobl gyffredin eu gwneud.
Wrth wneud hyn, roedd yn profi mor arbennig ydoedd. Yn wir y mae Ef yn FAB DUW.

C Darllenwch adnod 25 ac ysgrifennwch frawddeg am UN o'r pethau arbennig

1

C Pa effaith a gafodd hyn ar y dynion yn y cwch?

2

Roedd ofn arnyn nhw am nad oedden nhw'n gwybod pwy oedd Ef! Nid oedd yn ceisio eu dychryn yn fwriadol. Yn wir, fe dawelodd eu hofnau ar unwaith.

C Beth a waeddodd Ef arnyn nhw?

2

C **Darllenwch adnodau 28-32, a rhowch y digwyddiadau canlynol yn eu trefn gywir a'u rhifo 1-10.**

- ☐ Fe aeth Pedr allan o'r cwch.
- ☐ Fe ofynnodd Pedr i Iesu alw arno..
- ☐ Fe gerddodd Pedr ar y dŵr.
- ☐ Fe waeddodd Pedr, "Arglwydd, achub fi."
- ☐ Fe ddechreuodd Pedr suddo.
- ☐ Fe geryddodd Iesu Pedr am beidio ag ymddiried ynddo.
- ☐ Roedd Pedr yn ofni am fod y gwynt mor gryf.
- ☐ Fe ostegodd y gwynt.
- ☐ Fe aeth y ddau i fewn i'r cwch.
- ☐ Fe afaelodd Iesu yn Pedr.

5

Hwyrach eich bod yn meddwl beth a aeth o'i le. Pam oedd Pedr wedi dechrau suddo? Oedd ei Arglwydd wedi ei siomi? Neu a oedd y gwynt yn rhy gryf a'r tonnau yn rhy uchel? Nid yr un o'r rhain yw'r ateb! Y ffaith yw i ffydd Pedr fynd yn wan, ac fe ddechreuodd amau. Fe fyddai popeth wedi bod yn iawn pe bai wedi dal i ymddiried yn yr Arglwydd Iesu. **Dyna'r** wers bwysig i ninnau i'w dysgu - fe fydd ymddiried ynddo ef yn ein helpu yn 'stormydd bywyd' a ddaw ar ein traws i gyd ar adegau.

C **Copïwch y geiriau a ddywedodd Iesu wrth Pedr wrth afael ynddo.**

1

Fe ddysgodd Pedr, ac yn wir pawb arall yn y cwch, rywbeth mwy am yr Arglwydd Iesu. Nid oedd y gwynt a'r tonnau a'r ofn yn bethau braf iawn, ond yn y diwedd, roedden nhw'n Ei adnabod Ef yn well fel mae'r Adnod Allweddol yn egluro.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

Dyma sut y dylai hi fod gyda ni. Mae bywyd yn llawn o ddigwyddiadau i'n herio. Maen nhw'n rhan o gynllun Duw ar gyfer ein bywydau er mwyn ceisio ein helpu i ddeall mor fawr yw Person yr Arglwydd Iesu.

Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 16: 13-28

ADNOD ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 10: 9

Astudiaeth 3 Pedr - Ei Gyffes (Ei Ddatganiad)

Awgrymiadau ar Gyfer Darllen Pellach
Effesiaid 2: 18-22 Colosiaid 1: 18 1 Pedr 2: 4-8

Yn y wers hon rydyn ni'n gadael Llyn Galilea ac yn mynd tua'r gogledd.

Ar y map, marciwch enw'r lle yr aeth Iesu a'i ddisgyblion iddo.



Yn y lle unig hwn fe ofynnodd Iesu DDAU gwestiwn i'w ddisgyblion amdano'i Hun, Mab y Dyn.

C **Ysgrifennwch y cwestiwn cyntaf.** 1

C **Roedden nhw'n medru rhoi tri ateb i'r cwestiwn hwn. Beth oedden nhw?** 3

1.	**2.**
3.	

Nid oedd yr un o'r dynion hyn (yn yr atebion) wedi bod ar y ddaear ers tro, ond roedd rhai pobl yn credu eu bod nhw wedi dod yn ôl fel person gwahanol - Iesu! Mae hyn yn swnio'n rhyfedd i ni, oherwydd mae'r Beibl yn ein dysgu ein bod i farw "unwaith" (Hebreaid 9: 27), ac nid ydym yn dod yn ôl fel rhywun arall!

C **Yn awr ysgrifennwch yr ail gwestiwn.** 1

Roedd y cwestiwn hwn yn wahanol! Roedd yn fwy personol. Roedd UN disgybl yn barod i roi ateb clir iawn.

C **Pwy oedd y disgybl?** 1

C **Ysgrifennwch ei ateb.** 1

Fe wnaeth y dyn hwn gyffes ryfeddol! Roedd e'n dweud ei fod yn hollol siwr mai Iesu oedd y Gwaredwr (y "Crist" neu y "Meseia") oedd wedi cael ei addo ers amser hir, a'i fod wedi dod oddi wrth Dduw, a bod ganddo berthynas arbennig ag Ef. ("Mab y Duw byw")

Gofynnwch i **chi** eich **hun**, "Pwy ydw i yn ddweud yw Iesu?" Mae gan lawer o bobl wahanol syniadau amdano, ond i chi, yn bersonol, y peth pwysig yw ei gyffesu fel Arglwydd, a chredu ynddo ef yn eich calon. Dyna'r ffordd i gael eich achub.

C **Darllenwch, ac ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

Fe glywodd yr Arglwydd Iesu ateb Pedr ac yna siaradodd ag ef.

C **Darllenwch adnodau 17-20 ac yna rhowch CYWIR neu ANGHYWIR ar ôl pob un o'r rhain:-**

- Fe gafodd Pedr ei geryddu am ei ateb ffôl .....
- Y Tad Nefol a ddatguddiodd hyn i Pedr .....
- Fe siaradodd Iesu am ddinistrio'r deml .....
- Fe ddywedodd y byddai yn adeiladu Ei eglwys .....
- Roedd y disgyblion i ddweud wrth bawb yr hyn yr oedd Iesu wedi ei ddweud .....

5

Pan siaradodd Iesu am "adeiladu fy eglwys" nid oedd yn meddwl am godi eglwys o gerrig fel eglwys heddiw. Yn y Beibl, mae'r gair "eglwys" bob amser yn cyfeirio at "bobl". Roedd yr Arglwydd yn dweud y byddai torfeydd o bobl yn y blynyddoedd i ddod yn credu ynddo Ef. Y bobl hyn yw "Ei eglwys Ef", lle bynnag maen nhw'n byw. Dylai pob un ohonon ni feddwl am hyn: A ydw i'n aelod o'i eglwys Ef?

2

C O'r amser hwnnw ymlaen, roedd Ef yn siarad am rywbeth cwbl wahanol. (Edrychwch ar adnod 21.) **Beth oedd hynny?**

C Mae hyn yn ein hatgoffa mai dim ond drwy Ei farwolaeth a'i atgyfodiad Ef y medr pobl gael eu hachub a dod yn rhan o'i Eglwys. Unwaith eto, Pedr sydd yn barod i siarad!

Sut wnaeth Pedr ymateb i'r hyn a ddywedodd Iesu am ei ddioddef a'i farw?

1

C Y tro hwn, roedd geiriau Pedr yn ffôl iawn, a bu'n rhaid i'r Arglwydd Iesu siarad yn chwyrn iawn ag ef. **Ail drefnwch y pum gair hyn, a rhowch nhw yn eu trefn gywir i weld beth a ddywedodd Iesu wrth Pedr.**

M'O SDO THIAMY ATSNA LGGWO

2

.....

Mae ateb Iesu yn dangos mor barod ydoedd i farw droson ni. Fe wyddai Ef fod yn rhaid iddo farw er mwyn symud ein pechod. Nid oedd neb na dim a fedrai ei rwystro. Heddiw, mae yn galw arnom i "Godi'r groes a'i ganlyn Ef" (edrychwch ar adnod 24). Ydych chi'n barod i wneud hyn YN AWR?

Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 17: 1-13

ADNODAU
ALLWEDDOL
2 Pedr 1: 16-18

Astudiaeth 4 Pedr - Ar y mynydd.

Awgrymiadau ar gyfer Darllen Pellach
Marc 9: 2-9 Luc 9: 28-36 Ioan 1: 14-18

Mae'r hanes hwn am brofiad arbennig a gafodd Pedr a dau disgybl arall pan aethon nhw i fyny mynydd uchel gyda'r Iesu.

Darllenwch yr adnodau, yna llenwch yr atebion o amgylch y gair 'MYNYDD'

M = Un o'r dynion a ymddangosodd.
Y = Mae Moses ac Eleias yn gwneud hyn.
N = Peth arall a wnaeth Moses ac Eleias.
Y = "Hwn yw fy Mab yr ....."
DD = Digwyddodd hyn i Iesu.



Yr enw am y profiad hwn yw gweddnewidiad yr Iesu
Mae hyn yn golygu i'w 'wedd' neu ffurf newid.
Fe'i gwelwyd gan y disgyblion,
nid yn unig fel dyn cyffredin,
ond fel person nefol, yn llawn gogoniant.

8

C **Yn ôl adnod 2, ym mha ffyrdd yr oedd Ef wedi newid?**

2

Mae'r Adnodau Allweddol yn bwysig dros ben! Yma, mae Pedr, flynyddoedd yn ddiweddarach, yn cofio am y Gweddnewidiad. Fe ddywed iddo weld "â'i lygaid ei hun" - roedd yn llygad-dyst.

1

C **Beth a welodd?**

C Yn yr Adnodau Allweddol, fe ddywed Pedr wrthon ni fod yr Arglwydd Iesu wedi derbyn dau beth.

1

Beth oedden nhw?

Nid oedd Pedr yn amau dim llais pwy a glywodd ar y mynydd.

C **Llais pwy ydoedd?**



1

C **Beth a ddywedodd y llais?**

1

C **Pam bod y mynydd yn "sanctaidd" neu "cysegredig" i Pedr?**

2

Fe ymddangosodd dau ddyn, oedd wedi byw amser maith yn ôl, ar y mynydd.

C **Pwy oedden nhw?**

2

1.	2.

Hwyrach eich bod yn meddwl pam eu bod nhw yno! Mae'n help i gofio mai Moses a roddodd y GYFRAITH i Israel a bod Eleias yn BROFFWYD mawr.

C **Pan welodd Pedr y ddau hyn gyda'r Iesu beth oedd arno ef eisiau ei wneud?**

1

Syniad Pedr oedd trin y tri yn yr un ffordd! Gwneud pabell neu gysgod i bob un ohonyn nhw! Ond roedd Duw, y Tad, am i Pedr a'r disgyblion eraill ddysgu bod yr Arglwydd Iesu yn FWY na Moses, yn FWY nag Eleias, yn FWY na phawb arall! Felly fe siaradodd allan o'r cymylau, gan alw Iesu "FY MAB, YR ANWYLYD! Trwy hyn mae'r Gweddnewidiad yn dangos mor unigryw yw Iesu.

Roedd y disgyblion wedi eu syfrdanu gan y profiad gogoneddus. (Edrychwch ar adnod 6).

C **Beth a ddywedodd yr Arglwydd Iesu wrthyn nhw pan ddaeth Ef a chyffwrdd â nhw?**

1

Mae Iesu'n Berson rhyfeddol! Mae yn Fab Duw,
yn fwy na'r rhai a roddodd y gyfraith a'r proffwydi,
ac eto mae'n Ffrind i bobl wan, ofnus fel ni!
Gwnewch yn siwr eich bod yn "gwrando Arno" (adnod 5)
a'ch bod yn rhoi y lle CYNTAF Iddo yn **eich** bywydau.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120